Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Plas yr Afon
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0EY

Mr A Blake
Swyddfa AHNE Dyffryn Gwy
Ffordd Hadnock
Trefynwy
NP25 3NG

31 Ionawr 2014

Annwyl Mr Blake

**Drafft Ymgynghori Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Dyffryn Gwy 2014-19**

Diolch am roi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyflwyno sylwadau ar y fersiwn ddrafft o Gynllun Rheoli AHNE Dyffryn Gwy 2014-2019. Gwnawn ein sylwadau yng nghyd-destun ein swyddogaethau fel corff ymgynghori o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 a chynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â threftadaeth naturiol Cymru a dyfroedd ei glannau.

Mae CNC yn croesawu'r adolygiad a gynhaliwyd o'r cynllun rheoli presennol. Mae ein sylwadau wedi'u cynnwys yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Rydym yn nodi ac yn cytuno â'r agwedd fod llawer o gynnwys y cynllun presennol yn dal i fod yn berthnasol a bod newidiadau wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei ddiweddaru lle y bo'n briodol.

Gobeithiwn y bydd y sylwadau hyn o ddefnydd i chi. Mae croeso i chi gysylltu â Miki Miyata-Lee, Uwch Swyddog Hamdden a Phartneriaethau neu Richard Jones, Arweinydd Tîm Sir Fynwy a Chymoedd y Dwyrain yn y lle cyntaf os ydych am drafod ein hymateb ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir

Rhian Jardine
Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy

# Atodiad 1

# Cynllun Rheoli AHNE Dyffryn Gwy

# Drafft Ymgynghori 2014-19

# Sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru

### Sylwadau Cyffredinol

1. Mae CNC yn croesawu'r Cynllun drafft cynhwysfawr, integredig a thrwyadl sy'n adolygiad o'r Cynllun pum mlynedd presennol.
2. Nodwn fod nifer o ddogfennau'n gysylltiedig â'r Cynllun y bydd angen eu diwygio hefyd. Un ddogfen allweddol i gefnogi'r Cynllun Rheoli yw'r adroddiad ar Gyflwr yr AHNE, sy'n nodi prif nodweddion (adnoddau) yr AHNE y seiliwyd y Rhinweddau Arbennig arnynt, ynghyd â'r grymoedd dros newid sy'n gweithredu ar y rhinweddau hynny. Yn hollbwysig, mae'r adroddiad yn nodi'r tueddiadau yn y Rhinweddau Arbennig er gwell neu er gwaeth. Heb y dystiolaeth hon yn sail i benderfyniadau, gallai fod yn anodd adolygu'r Cynllun Rheoli mewn modd tryloyw. Mae CNC yn argymell felly y dylai'r adroddiad diwygiedig ar Gyflwr yr AHNE fod ar gael cyn gynted â phosibl i sicrhau bod diwygiadau cadarn yn cael eu gwneud ac er mwyn rhoi gwybodaeth i'r rhanddeiliaid.
3. Eisoes, mae'r Cynllun cyfredol yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Fe wyddoch fod y prosesau asesu hyn yn rhai ailadroddol. Byddem yn cynghori felly y dylid adolygu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd os yw'r Cynllun Rheoli newydd, ar ôl ymgynghori, gryn dipyn yn wahanol i'r cynllun diwethaf.
4. Mae CNC yn argymell y dylid mabwysiadu dull rheoli ar lefel yr ecosystem fel sy'n cael ei gydnabod gennych yn adran 4.2. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo gwybodaeth well am werth cymdeithasol yr AHNE i randdeiliaid, ymgysylltiad ehangach, cynhyrchu opsiynau rheoli a meithrin consensws. Er bod y dull yn cael sylw yn y Cynllun, gallai fod yn fuddiol ei gymhwyso'n llawnach drwy'r broses ymgynghori.
5. Cyfeirir at Reoli Adnoddau Naturiol yn 4.1.3 ac mae'n ddyddiau cynnar mewn perthynas ag ystyriaethau o'r fath er bod eu datblygiad ar raddfa dalgylchoedd wedi'i gadarnhau. Gyda hyn mewn golwg, gallai cynnwys rhyw gyfeiriad at rannu profiad rheoli y tu hwnt i ffin yr AHNE i mewn i'r dalgylch o'i chwmpas fod yn ddefnyddiol os yw adnoddau staff yn caniatáu.
6. Mae mapiau'n adnoddau gweledol defnyddiol iawn ac efallai y gellid gwneud defnydd gwell o'r ddau fap atyniadol yn y Cynllun drafft ar ddechrau'r ddogfen yn hytrach nag ar ei diwedd.
7. Hefyd, i fod yn fwy eglur a dealladwy, byddem yn argymell y dylid cynnwys y Cynllun Rheoli a'i ddogfennau cysylltiedig yn gynnar yn y drafft (efallai yn 1.3), ynghyd â sut y mae'n perthyn i'r Cynlluniau Datblygu Lleol ac ati. Mae'r dogfennau cysylltiedig yn cynnwys yr adroddiad ar Gyflwr yr AHNE, y Cynllun Gweithredu, yr asesiad amgylcheddol strategol a'r asesiad rheoliadau cynefinoedd a gallai gyfeirio at unrhyw nodiadau cyfarwyddyd a gynhyrchwyd gan Ddyffryn Gwy e.e. ar ynni adnewyddadwy ar raddfa fach.
8. Mae Rhinweddau Arbennig yr AHNE yn bwysig iawn a dylent fod yn amlwg iawn yn y Cynllun. Awgrymwn y dylid gwella'u lleoliad yn y Cynllun a'u gwneud yn fwy amlwg drwy eu cynnwys ynghynt yn y ddogfen yn hytrach nag yn nhabl 8.
9. Nodwyd nad yw'r drafft newydd bellach yn cynnwys geirfa ar ffurf atodiad. Mae CNC yn argymell cynnwys atodiad o'r fath. Hefyd, gallai fod yn werth cynnwys rhestr o 'ddogfennau ategol' allweddol a chyfeiriadau, gyda dolenni i wefannau dethol.
10. Adran ddefnyddiol arall i randdeiliaid allu cyfeirio'n gyflym ati fyddai 'Beth sydd wedi newid yn y Cynllun hwn ers y cynllun diwethaf?' Yn ein barn ni, byddai hyn yn gwneud y Cynllun yn fwy dealladwy a thryloyw.

11. Yn ddelfrydol, dylai’r Amcanion Strategol fod yn rhai CAMPUS fel yr argymhellir yng nghanllawiau presennol y Cyngor Cefn Gwlad ar adolygu cynlluniau rheoli AHNE (2009). Er ein bod o’r farn nad yw’r amcanion yn rhai CAMPUS fel y maent wedi’u hysgrifennu ar hyn o bryd, mae’n hanfodol bod camau gweithredu’r Cynllun Gweithredu yn rhai CAMPUS am eu bod i bob pwrpas yn cynnal ac yn ategu’r Amcanion.
12. Rydym yn argymell y dylid cyfeirio at ddogfen ddrafft Llywodraeth Cymru ‘Golwg tua’r Dyfodol’ sy’n gosod y cyfeiriad ar gyfer Tirweddau Gwarchodedig Cymru . Mae’n arbennig o berthnasol i agweddau Datblygu Cymunedol y Cynllun drafft.
13. Er ein bod yn cydnabod y gwaith sy’n cael ei wneud ar lawr gwlad i ddarparu gwybodaeth a theithiau tywys dwyieithog, byddai’n werth cynnwys cyfeiriad yn y Cynllun at gefnogi nodweddion unigryw lleol/diwylliannol yn cynnwys y Gymraeg. Byddai hyn yn cydnabod y cynnydd cadarn ym maes dysgu Cymraeg mewn ysgolion, yn enwedig yn y De.
14. Mae cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir Llywodraeth Cymru yn adnodd pwysig ar gyfer gwella’r nwyddau a’r gwasanaethau amgylcheddol sy’n cael eu cynnig gan ffermydd ledled Gymru a dylid cyfeirio ato yn y Cynllun (gweler y sylw penodol isod). Mae’n werth nodi hefyd fod adolygiad o’r cynllun ar y gorwel, a bydd y Cynllun Datblygu Gwledig newydd sy’n ei gyllido yn destun ymgynghoriad yn y dyfodol agos.
15. Teimlwn fod angen sôn pa mor bwysig yw hi i bawb fabwysiadu mesurau bioddiogelwch i helpu i atal lledaeniad plâu a chlefydau yn ogystal â rhywogaethau o blanhigion goresgynnol. Rydym yn cydnabod bod hyn yn cael sylw yn y siarter preswylwyr ac ymwelwyr o dan adran 12.2 ond nid yn unman arall, a byddai’n fuddiol gwneud hynny.
16. Yn yr un modd, gallai fod yn werth nodi bod Cynlluniau Dylunio Coedwigoedd yn newid i fod yn Gynlluniau Adnoddau Coedwigoedd, ond mae’r broses o bontio rhyngddynt yn y camau cynnar ar hyn o bryd.
17. Mae sawl AHNE wedi derbyn Siarter Twristiaeth Gynaliadwy EUROPARC. A fyddai hon o bosibl yn ychwanegu gwerth at waith rhagorol Dyffryn Gwy yn cynllunio cyrchfannau twristiaeth? Os felly, byddai’n werth cyfeirio ati yn ôl pob tebyg.
18. Un manylyn bach o ran cywirdeb yw bod angen nodi cyfeiriadau anghywir yn y Cynllun at y ‘Forestry Commission’ ac ‘Environment Agency Wales’, yn ogystal â ‘Welsh Assembly Government’ (‘Welsh Government’ erbyn hyn).

**Sylwadau penodol**

***1.1.2***

Byddai’n werth cydnabod y ffaith fod natur drawsffiniol yr AHNE, yn ogystal â bod yn her, yn gryfder hefyd o ran yr amrywiaeth a’r profiad y gall y partneriaid amrywiol ei gyfrannu at y gwaith o reoli’r dynodiad tirwedd rhyngwladol bwysig hwn.

**1.3**

Yn ein barn ni, dylid symud yr adran hon i ddechrau’r cyflwyniad.

Y Cynllun Gweithredu – a fwriedir i’r cynllun gweithredu fod ar gael ochr yn ochr â’r cynllun rheoli am fod cysylltiad pwysig rhwng y cynllun gweithredu a’r amcanion strategol? (Gweler y sylwadau ym mhwynt 11 uchod). Rydym yn ystyried mai’r cynllun gweithredu yw’r cyfle i fod yn ddigon CAMPUS i gyflawni’r amcanion strategol.

Yn yr adran hon hefyd, byddem yn cynghori y dylid cynnwys crynodeb i roi syniad i’r darllenydd beth yw’r prif newidiadau rhwng y fersiwn hon a’r cynllun blaenorol (Gweler y sylwadau ym mhwynt 10 uchod).

**3.2.5**

Dylai fod mwy o bwyslais yma ar y ffaith fod bygythiad plâu a chlefydau yn fawr, yn hytrach na'r posibilrwydd o effeithio ar goetiroedd yn Nyffryn Gwy yn unig. Mae Phytophthora ramorum yn arbennig yn effeithio'n sylweddol ar blanhigfeydd coed llarwydd ledled Cymru a bydd goblygiadau o ran llwyrgwympo coed llarwydd yn Nyffryn Gwy gan arwain at effaith ar y dirwedd (drwy lwyrgwympo safleoedd coed llarwydd o dan rybuddion iechyd coed). Mae'n werth nodi y gellid edrych ar Phytophthora ramorum fel rhywbeth cadarnhaol hefyd yn yr ystyr y bydd yn helpu i adfer Coetiroedd Hynafol a Blannwyd (PAWS) yn goed llydanddail yn gyflymach (er nad drwy'r dull a ffafrir o deneuo parhaus). Mae'n debygol mai cymysgedd o goed conwydd/llydanddail a blennir mewn ardaloedd na chafodd eu dynodi'n PAWS er mwyn osgoi ungnwd o goed a bydd hyn o fudd i iechyd coed a chadwraeth ehangach, yn cynnwys rhywogaethau gwarchodedig.

**3.3.3**

O ran y cyfeiriad at gyflenwadau o eogiaid yn Afon Gwy, ystyriwn y byddai'n werth datgan bod gwelliannau cynefin sylweddol wedi'u gwneud i silfeydd er mwyn helpu i wrthdroi'r lleihad mewn niferoedd a'r gobaith yw y bydd hyn o fudd i boblogaeth eogiaid yr afon yn y dyfodol.

**5.4.8**

Nodwn fod y Cynllun yn cyfeirio at y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Fodd bynnag, teimlwn fod angen ei hegluro a'i chydnabod ymhellach.

Y Gyfarwyddeb hon yw'r ddeddfwriaeth ddŵr fwyaf sylweddol gan y CE hyd yma. Mae'n mynnu bod pob corff dŵr ar y glannau a'r arfordir yn cyrraedd "statws da" fan lleiaf erbyn 2015. Gwnaiff hyn drwy sefydlu strwythur ardal basn afon, lle pennir amcanion amgylcheddol llym, yn cynnwys targedau ecolegol ar gyfer dŵr wyneb. Gan hynny, mae'r Gyfarwyddeb yn pennu fframwaith a ddylai greu manteision sylweddol o ran rheoli dŵr yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Nod y Gyfarwyddeb yw diogelu a gwella ansawdd dŵr. Bydd yn gwneud hyn drwy Gynlluniau Rheoli Basn Afon i ddatblygu'r cysylltiadau rhwng dŵr wyneb a dŵr daear, a chyfaint dŵr a'i ansawdd. Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r asiantaethau arweiniol ar gyfer sicrhau bod y Gyfarwyddeb yn cael ei gweithredu.

Dylai cynlluniau rheoli AHNE gydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd dŵr a nodi'r camau sydd i'w cymryd yn yr AHNE er mwyn cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, gan annog partneriaethau a chamau gweithredu priodol mewn dalgylchoedd â blaenoriaeth.

Nodwyd y cyfeiriad at statws ecolegol gwael yn sgil llygredd gwasgaredig yn Adran 8.2.2 y Cynllun. Fodd bynnag, teimlwn y dylid rhoi sylw pellach i gynnwys pa bartneriaethau a chamau gweithredu sydd ar y gweill ar gyfer mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig (gweler hefyd y sylwadau a wnaed mewn perthynas â Thabl 8 isod).

**6.2.1**

Landmap – I ddarllenwyr y Cynllun nad ydynt yn gyfarwydd â Landmap, mae'n debyg y dylid cynnwys eglurhad o'r broses ddosbarthu yng ngeirfa'r cynllun.

Hefyd yn yr adran hon, ystyriwn y byddai'n werth diweddaru'r Cynllun er mwyn cyfeirio at y Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Sir Fynwy (sydd i'w fabwysiadu erbyn diwedd mis Mawrth 2014).

**Tabl 8**

Nodwn fod y cyfeiriad at ansawdd aer, pridd a dŵr wedi'i ddileu. Mae'r rhain yn ystyriaethau pwysig ar gyfer tirwedd iach ac yn ategu'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem. Rydym yn annog yn gryf felly y dylid ystyried sut y bydd y Cynllun yn mynd i'r afael â'r elfennau hyn o fewn amcanion y Cynllun.

**Rhan 2 Strategaeth**

**Cyflwyniad**

Angen newid; dylai gyfeirio at gynllun 2014-2019 yn hytrach na 2009 – 2014.

**7.1.6**

A yw'r cyfeiriad at y siarter yn briodol? A fyddai'n well rhoi'r pennawd syml, "What you can do to help support the AONB'?

**8.1.4**

Yn y frawddeg olaf, yn ogystal ag atal dirywiad, byddem yn cynghori y dylai camau gweithredu helpu i wrthdroi dirywiad lle y bo'n briodol.

**8.2.1**

Rhoi "Severn Estuary SAC" yn lle "River Severn SAC".

**8.5**

Cynnwys cyfeiriad at Gynllun Amaeth-amgylchedd Glastir yng Nghymru – Cynlluniau Glastir Sylfaenol, Uwch, Creu Coetir a Rheoli Coetir.

**8.6.2**

Dylid cynnwys cyfeiriad at goed llarwydd fel un o'r rhywogaethau coed a effeithir gan Phytophthora ramorum.

**8.6.7**

Yn hytrach na dweud bod angen dod â choetiroedd yn ôl dan reolaeth lle bynnag sy'n bosibl, byddai'n well dweud y dylid annog perchnogion coetiroedd i fynd ati i reoli eu safleoedd yn weithredol ac yn briodol, yn cynnwys defnyddio dulliau bondocio.

**8.6.7.**

Dylid ymestyn y cyfeiriad at y goeden iawn yn y man iawn i gynnwys yr angen i ddefnyddio'r rhywogaethau brodorol ac ystyried tarddiad lleol y rhywogaethau hynny.

**12.2.6**

Mae'n debyg bod dau fater yn cael sylw yma, a bydd angen eu gwahanu. Er bod cynnal natur wledig tir yn gysylltiedig â chadwraeth bywyd gwyllt, mae'n fater pwysig yn ei hawl ei hun o ran cymeriad y dirwedd, a dylid ei gynnwys fel cam gweithredu ar wahân yn ogystal â rheoli tir ar gyfer bywyd gwyllt.